

18. Rhodd

GWEDDI AGORIADOL:

O, Dduw, yr hwn a roddaist Iesu Grist i fod yn iachawdwr i'r byd, cynorthwya ni i gadw gŵyl ei ddyfod drwy ei dderbyn o'r newydd i'n calonnau a rhoi mwy o'n hamser a'n heiddo i wasanaethu eraill yn ei enw ef. Amen

Y NADOLIG CYNTAF

Naill ai ar ffurf drama ar gyfer llawer o blant neu ar ffurf darlenniadau a chân pan fo ychydig o blant.

Darlenniad: Esea 11:1–6.

Carol
gynulleidfaol: 'Dawel nos', *Clychau'r Nadolig*.

Llefarydd: Luc 2:1 a 2

GOLYGFA 1

PALAS HEROD

Morwyn: Eich Mawrhydi, y mae Cyreniws, rhaglaw Syria, yn dymuno eich gweld.

Herod: Tyrd ag ef i mewn. [*Cyreniws yn dod i'r ystafell*] Henffych well, Cyreniws, o ble ddaethost ti?

Cyreniws: Oddi wrth Awgwstws Cesar, eich Mawrhydi.

Herod: Beth yw dy neges?

Cyreniws: Y mae gennyf orchymyn oddi wrth Cesar.

Herod: Beth yw hwnnw?

Cyreniws: [*Yn rhoi sgrôl i Herod*] Gorchymyn yw i drethu'r holl fyd sydd dan ei lywodraeth.

Herod: [*Ar ôl darllen*] Os yw Awgwstws Cesar yn gorchymyn, rhaid i bawb ufuddhau.

Cyreniws: Cyhoedddech trwy Jwdea fod yn rhaid i bawb fynd i'w trethu, bob un i'w ddinas ei hun a'r rhai o dŷ a thylwyth Dafydd i fynd i Fethlehem.

Herod: Felly y bydd, Cyreniws.
Cyreniws: Ffarwél, eich Mawrhydi.
Herod: Ffarwél.
Llefarydd: Luc 2: 4-5

GOLYGFA 2

CYRRAEDD BETHLEHEM

Llefarydd: Luc 2:6- 7

Carol
gynulleidfaol: ‘I orwedd mewn preseb heb gadair na chrud’, *Clychau’r Nadolig*.

Llefarydd: Luc 2:8

Cerddoriaeth: Unrhyw garol addas.

GOLYGFA 3

BRYNIAU UWCHBEN BETHLEHEM

Bugail 1: Mae hi’n noson oer heno, fechgyn.

Bugail 2: Ydi wir, mae angen clogyn tew ar noson fel hon.

Bugail 3: Dewch i eistedd fan yma i siarad. Mae’r defaid yn dawel iawn erbyn hyn.

[*Eistedd a siarad*]

Cerddoriaeth: [*Yn dawel i ddechrau, yma’n chwyddo*] ‘Gloria in Excelsis Deo’

Bugail 4: Hei! Gwrandewch! Ydw i’n breuddwydio neu ydach chi’n clywed miwsig hefyd?

Pawb: Ydan.

Bugail 1: Edrychwch ar y golau yn yr awyr.

Bugail 2: o, mae arna i ofn ... Beth sy’n digwydd?

[*Pawb yn closio at ei gilydd*]

Angel 1: Peidiwch â dychryn. Rydan ni’n dod â newyddion da i chwi.

- Angel 2: Ganwyd i chwi heddiw yn nhref Dafydd waredwr, yr hwn yw'r Meseia, yr Arglwydd.
- Angel 3: Ewch i Fethlehem ac fe gewch weld yr Iesu yno yn gorwedd mewn preseb.
- Angylion
gyda'i gilydd: Gogoniant yn y goruchaf i Dduw ac ar y ddaear tangnefedd ymhlith dynion sydd wrth ei fodd.
- Cerddoriaeth: 'Gloria in Excelsis Deo'. [*Angylion yn mynd*]
- Bugail 3: We! ... dyna olygfa hardd. Rhaid i ni fynd i Fethlehem i weld a yw'r hyn a glywson ni yn wir.
- Unawd: 'Hwiangerdd Mair (1)', *Clychau'r Nadolig*.

GOLYGFA 4

AR UN O HEOLYDD BETHLEHEM

- Cerddoriaeth: 'Tri ym ni o'r dwyrain draw', *Clychau'r Nadolig*.
- Gŵr Doeth 1: Mae'r seren wedi aros fan acw.
- Gŵr Doeth 2: Dydy e ddim yn edrych yn lle gwych iawn.
- Gŵr Doeth 3: Nac ydi; rwy'n credu mai stabl ydi e.
- Gŵr Doeth 1: Lle od iawn i frenin fod ynddo.
- Adroddiad: 'Y Doethion', I.D. Hooson, *Y Gwin a Cherddi Eraill*.
- Carol
gynulleidfaol: 'Ceidwad Byd', *Clychau'r Nadolig*.

GOLYGFA 5

O AMGYLCH Y PRESEB

Pawb gyda'i gilydd yn dod at ei gilydd erbyn y diwedd.

Cân plant bach
[*angylion*]: 'I orwedd mewn preseb', *Clychau'r Nadolig*.

[*Bugeiliaid yn dod i mewn ac yn penlinio o flaen y crud*]

Bugeiliaid: [Yn canu neu'n llefaru gyda'i gilydd]
Henffych iti, faban sanctaidd,
Plygu'n wylaidd iti wnawn.

Cân plant bach

[angylion]: 'Iesu Faban, cwsg yn bêr', *Clychau'r Nadolig*.

[Doethion yn dod i mewn a phenlinio un ar y tro]

Gŵr Doeth 1: Dyma aur yn anrheg i'r Brenin Iesu.

Gŵr Doeth 2: Dyma thus yn anrheg i'r Brenin Iesu.

Gŵr Doeth 3: Myrr rof i i'r Brenin Iesu.

EPILOG

Pawb: [Yn edrych ar y crud]

Canys bachgen a aned i ni, mab a roed i ni, a bydd yr awdurdod ar ei ysgwydd.
Fe'i gelwir, Cynghorwr rhyfeddol, Cawr o ryfelwr, Tad bythol, Tywysog
heddychlon.

Carol

gynulleidfaol: 'O! dawel ddinas Bethlehem', *Clychau'r Nadolig*.

DARLLENIADAU A CHÂN

Arweinydd: Dyna hanes y Nadolig cyntaf unwaith eto. Mae'n stori gyfarwydd, ond beth,
ddywedech chi, yw ei neges i ni heddiw? Beth ddylai'n hymateb ni fod?

Llawenhau bod Duw wedi anfon rhodd mor werthfawr ag Iesu Grist i ni. Ie,
ond nid llawenhau drwy gân a geiriau yn unig ond drwy roi o'n heiddo i eraill
yn ei enw ef. Dyna a rydd wir lawenydd i ni. Gwrandewch beth a ddigwyddodd
i un teulu a roddodd i eraill un Nadolig.

Stori [yn fyr]: Seiliwyd ar 'A Gift from La Befana', (*So Gracious is the Time* gan A.B. Kerr).

Ni wyddai Mr. Puw sut yn y byd i dorri'r newyddion i'w deulu eu bod wedi
penderfynu mynd ar streic yn y gwaith, ac y byddai heb waith a hithau'n
bythefnos cyn y Nadolig. O ble y câi arian i brynu anrhegion a bwyd iddynt? Ni
hoffai'r syniad o orfod gofyn i Gruffydd, ei fab hynaf, am arian, gan ei fod yn
fachgen eithaf hunanol a fynnai ei ffordd ei hun gyda phopeth. Byddai'n siŵr o
gweryla a chwyno am iddo orfod rhoi ei arian i dalu'r biliau a'r rhent am y tŷ.
Byddai Mair, y ferch, hefyd yn siŵr o bwdu am na allai fforddio prynu'r ffrog
newydd a addawodd ef iddi. Ond am Iwan, y bachgen lleiaf, y poenai fwyaf.
Roedd ef yn fachgen cloff, ond er hyn ef oedd yr aelod bodlonaf o'r teulu.
Byddai'n loes i'w fam fetu â rhoi anrheg iddo ef o bawb ar ddydd Nadolig.

Ond dweud fu raid, a phan glywodd y teulu'r newyddion aeth pethau o chwith o'r diwrnod cyntaf. Aeth Gruffydd yn fwy anodd ei drin, gan nodi'n fanwl i ble roedd pob ceiniog o'i eiddo'n mynd, a phwdodd Mair yn dost a dechreuodd gwyno bod dwy o'i ffrindiau'n mynd i gael ffrog newydd, ac na allai fyth fynd i'r parti yn yr un ffrog ag a wisgai'r flwyddyn cynt. Poenai Mrs. Puw wrth weld ei gŵr yn gofidio ac yn cerdded yn anesmwyth o gwmpas y tŷ heb ddim i'w wneud.

Un dydd, wythnos cyn y Nadolig, daeth Iwan adre o'r ysbyty lle'r arferai fynd bob wythnos i gael ymarfer i'w goes, ffisiotherapi. Dywedodd wrth ei dad fod Nyr Jones yn gofyn a allai ef wneud model o breseb mewn clai i'w osod yn ward y plant yn yr ysbyty dros y Nadolig. Roedd Mr. Puw yn un celfydd â'i ddwylo, ond siglodd ei ben a dweud, 'Na, does gen i ddim arian i brynu clai'. 'O, mi fedra i 'neud peth efo blawd a dŵr', meddai Iwan. 'Fe wnes i beth yn yr ysgol dro yn ôl.' A wir i chi, ymhen yr awr yr oedd Mr. Puw ac Iwan yn brysur yn dechrau llunio'r model. Canai Mr. Puw wrth weithio a llonnodd ei wraig wrth ei weld mor hapus. Gweithiodd yn brysur am rai dyddiau, ac wrth weld y cymeriadau (bwystfilod, doethion, ac ati.) yn tyfu dan ei ddwylo, dechreuodd Gruffydd a Mair gymryd diddordeb yn y model. Cynigodd Mair ei baentio ac anghofiodd am fynd allan gyda'r nos ac am gael arian i brynu ffrog newydd. Penderfynodd Gruffydd fynd allan ddiwedd yr wythnos i brynu twrci mawr yn anrheg i'r teulu. Wrth eu gwyllo'n gweithio'n ddiwyd i orffen y model, meddyliai Mrs. Puw'r fath newid a ddaeth i'r teulu drwy stori'r Nadolig cyntaf.

O'r diwedd gorffennwyd y gwaith a safodd y teulu'n dawel o amgylch yr olygfa hyfryd. 'Mae'n hardd,' meddai Mair, 'am mai dyma ein hanrheg ni i'r baban Iesu.' Aethpwyd â'r model i'r ysbyty i'r plant bach sâl, ac O! y llawenydd a oedd yno pan welson nhw ef wedi'i oleuo yn y gornel ar fore'r Nadolig!

Offrwm: *[Plant hŷn neu ieuenctid i'w gasglu, neu bawb i gerdded mewn trefn at y bwrdd a'r gweinidog i'w dderbyn. Gallai'r offrwm fod yn arian, neu bod y plant a'r rhieni i roi un anrheg a gawson nhw dros y Nadolig (dillad/teganau/arian ac ati). Anrheg newydd fydd yn costio i'w roi, i'w anfon i Oxfam/ffoaduriaid/ysbyty lleol.]*

Carol
gynulleidfaol: 'Wele cawsom y Meseia', *Caneuon Ffydd*.

Gweddi

DIWEDD